


2003

ADRAN A

1. Rhowch y rhifau -3, -2, -1, 0, 1 yn y cylchoedd. Rhaid i'r rhifau ym mhob llinell adio i 0. Beth yw'r rhif yn y cylch a nodir gan farc cwestiwn?



- a) -3 b) -2 c) -1 ch) 0 d) 1


2. Faint yw 40% o 50% o £60?

£30

10% £3
40% £12

- a) £7 b) £8 c) £12 ch) £15 d) £30

3. Faint yw arwynebedd y saeth yn y sgwâr 2 x 2 hwn?



A = canol y sgwâr

- a) 1 b) 1.5 c) 2 ch) 2.5 d) 3

0.5 0.3

4. Pa un o'r ffraciynau hyn sydd rhwng $1/2$ a $1/3$?

$\frac{6}{12}$ $\frac{4}{12}$

a) $1/4$
0.25

b) $5/12$

c) $3/5$
 $= \frac{6}{10}$
 $= 0.6$

ch) $1/6$


d) $2/3$

X
Llai na $\frac{1}{3}$

X
Mwy na $\frac{1}{2}$

5. Yn Ysgol Tegryn mae 120 o ddisgyblion ym Mlwyddyn 8. Mae 80 o'r disgyblion yng nghôr yr ysgol a 30 yn y gerddorfa. Mae 10 disgybl yn y côr ac yn y gerddorfa hefyd.

Faint o ddisgyblion Blwyddyn 8 nad ydynt yn y côr na'r gerddorfa?



a) 0

b) 10

c) 20

ch) 30

d) 40

6. O wybod bod $231 \times 437 = 100947$, faint yw 232×436 ?

$232 \times 437 = 101384$

$$\begin{array}{r} 100947 \\ 437 \\ \hline 101384 \end{array} \quad \begin{array}{r} 384 \\ - 232 \\ \hline 152 \end{array}$$

a) 100742


b) 101152

c) 100947

ch) 100952

d) 100942

7. Rhennir y triongl mawr hafalochrog yn nifer o drionglau bach hafalochrog. Faint yw'r nifer lleiaf o drionglau bach y mae'n rhaid eu lliwio fel bo gan y triongl mawr linell gymesuredd?



a) 2

b) 3

c) 4

ch) 5

d) 6

8. Sawl teilsen sgwâr, pob un yn mesur 10cm x 10cm, sydd eu hangen i orchuddio petryal 3m wrth 4m?

300cm 400cm

$30 \times 40 = 1200$

- a) 12 b) 120 c) 140 **ch) 1200** d) 14000

9. Mae maint pob un o'r tair ongl mewn triongl yn rhif sgwâr. Beth yw maint yr ongl leiaf yn y triongl?

- a) 4° b) 9° **c) 16°** ch) 25° d) 36°



$16^\circ, 64^\circ, 100^\circ$

10. Mae Ben yn chwarae gêm dîs gan ddefnyddio dîs diduedd, chwe wyneb. Os yw'n taflu rhif cysefin neu eilrif mae'n sgorio pwynt. Beth yw'r tebygolrwydd y bydd yn sgorio pwynt ar ei daflriad nesaf?

- a) $1/6$ b) $1/3$ c) $1/2$ **ch) $5/6$** d) 1

1 2 ✓ 3 ✓ 4 ✓ 5 ✓ 6 ✓

11. Mae'r lluniau yn dangos y berthynas rhwng más silindr, sffêr a chiwb:



2 ciwb = 4 silindr
1 ciwb = 2 silindr

Sawl silindr sy'n gyfwerth â chiwb?

- a) 1 **b) 2** c) 3 ch) 4 d) 5

1
4
9
16
25
36
49
64
81
100 [80]
121 [59] x
144 [36] x
169 [11] x

ADRAN B

1. Mewn cynghrair pêlrwyd mae tîm yn cael 5 pwynt am ennill gêm, 2 bwynt am gêm gyfartal a dim pwynt am golli. Ar ôl chwarae 20 gêm roedd tîm Aber wedi cael 41 pwynt.

Pa gyfuniadau o ganlyniadau oedd yn bosibl? Rhowch eich canlyniadau yn y tabl canlynol:

Ennill	Cyfartal	Colli	Pwyntiau
7	3	10	41
5	8	7	41
3	13	4	41



Faint oedd nifer lleiaf posibl y gemau a oedd Aber wedi eu colli?

Nifer lleiaf posibl y gemau sydd yn y golofn **Colli** yw: 4


2.

Mae 4 triongl yn y llun cyntaf.

Sawl triongl sydd yn yr ail lun? Nifer y trionglau = 18



Beth yw'r llun nesaf yn y patrwm hwn?



Sawl triongl sydd yn y llun hwn? Nifer y trionglau = 27

Ymchwiliwch ymhellach.

Llun posib nesaf:

Trionglau: 64

